23/11/20

*Annwyl Riant / Warcheidwad*

Hoffem atgyfnerthu negeseuon pwysig er lles holl gymuned yr ysgol.

- Hyd yma ers dechrau'r tymor rydym wedi gorfod cau tri dosbarth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr achosion a gawsom wedi dod o'r gymuned a diolch byth nad ydynt wedi lledaenu yn yr ysgol.

- Efallai y bydd eich plentyn yn dod adref ac yn dweud bod ganddo aelod gwahanol o staff yn ei ddosbarth. Os oes gan aelod o staff neu rywun yn eu cartref neu aelwyd estynedig unrhyw symptomau a all fod yn Covid, byddant yn hunan ynysu ar unwaith nes eu bod nhw neu'r person arall yn derbyn canlyniad prawf negyddol. SICRHEWCH EICH BOD YN DILYN YR UN DREFN OS GWELWCH YN DDA.

- Byddwch wedi sylwi bod y staff sydd ar ddyletswydd yn y bore a gyda'r prynhawn bellach yn gwisgo masgiau wyneb. Rydym i gyd yn gwybod mai trosglwyddo oedolion i oedolion yw'r prif achos pryder ac nad yw llawer o bobl yn dangos unrhyw symptomau. Er mwyn ein cadw ni i gyd yn ddiogel ac osgoi trosglwyddo'r firws yn y gymuned, byddem yn cynghori'n gryf, wrth symud ymlaen, y dylai pob rhiant / gwarcheidwad ac ymwelydd â'r safle wisgo mwgwd.

- Mae rhai disgyblion wedi rhannu eu bod yn cwrdd lan i chwarae yng nghartrefi ei gilydd ac yn cysgu drosodd yn nhai ei gilydd. Rydym wir yn gobeithio nad yw hyn yn wir gan y byddai hyn yn mynd yn erbyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a gallai gael effaith niweidiol ar iechyd a lles cymuned ein hysgol. Bydd ein hymdrechion i gynnal grwpiau cyswllt effeithiol yn yr ysgol yn y fantol os yw plant o wahanol gartrefi nad ydynt mewn aelwyd estynedig yn cyfarfod yng nghartrefi ei gilydd.

- Hoffem ddiolch i'r rhai sydd wedi cadw at yr amseroedd gollwng a chasglu i gadw'r niferoedd ar y safle mor isel â phosib.

- Ni ddylai rhieni / gwarcheidwaid barcio yn y maes parcio ger y siopau. Ychydig iawn o lefydd sydd ar gael i bawb sy'n mynnu ceisio parcio yno. Mae hyn eto'n arwain at dagfeydd ac yn peryglu diogelwch y rhai sy'n cerdded gyda'u plant. Dylai rhieni / gwarcheidwaid ganiatáu ychydig mwy o amser i'w hunain, parcio ychydig ymhellach i ffwrdd a cherdded i ollwng a chasglu eu plentyn / plant ar yr amser a neilltuwyd.


- Cadwch bellter **<u>o 2m o leiaf</u>** oddi wrth deuluoedd eraill bob amser a chymerwch sylw o'r saethau sy'n nodi pa ffordd y dylech fynd i mewn ac allan o'r brif iard wrth gasglu'ch plentyn a dilyn y system unffordd bob amser.

- Dyma'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru y mae'n rhaid i ni i gyd eu dilyn i leihau'r risg o drosglwyddo ac i gadw pawb yn ddiogel:

- Aros allan o gartrefi eich gilydd, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn
- Cyfyngu ar faint rydych yn gadael eich cartref, a'r pellter rydych yn ei deithio
- Pan fyddwch yn gadael eich cartref, ceisiwch gyfyngu ar faint o wahanol bobl yr ydych yn eu gweld. Mae'n well gweld un neu ddau o bobl yn rheolaidd na gweld llawer o wahanol bobl yn achlysurol
- Cadwch bellter cymdeithasol, gan gynnwys yn yr awyr agored
- Ceisiwch gwrdd â phobl yn yr awyr agored yn hytrach na dan do lle bo hynny'n bosibl, hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae'r gyfraith yn caniatáu ichi gwrdd o dan do
- Gweithio gartref os gallwch
- Golchi eich dwylo'n rheolaidd a dilyn cyngor arall ar hylendid
- Hunan ynysu os oes gennych symptomau

Diolch am eich cydweithrediad.

*Yn gywir, Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*


Mynd â Phlant i'r Ysgol a'u Casglu
Risg Uchel
Risg Isel
Ymgasglu mewn grwpiau y tu allan i gatiau'r ysgol
Aros i siarad ag eraill
MAN RISG UCHEL
Mynd i mewn i'r ysgol heb apwyntiad
Gadael yr ysgol cyn gynted ag y gallwch
Gwisgo masg
MAN RISG ISEL
Dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ysgol
DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE
Diogelu Cymru gyda'n gilydd
gov.wales/coronavirus

23/11/20

*Dear Parent / Guardian*

We would like to reinforce some important messages to the whole school community:

- To date since the start of term we have had to close three classes. Evidence suggests that the cases we have had have come from the community and thankfully have not spread in the school.

- Your child may come home and say that they had a different member of staff in their class. If a member of staff or someone in their household or extended household has any possible Covid symptoms, they self-isolate immediately until they or the other person receives a negative test result. PLEASE DO THE SAME.

- You will have noticed that the staff on duty during morning drop-off and collection are now wearing face masks. We all know that adult to adult transmission is the main cause for concern and that many people don't show any symptoms. In order to keep us all safe and avoid transmission in the community, we would strongly advise that, going forward, all parents/guardians and visitors to site should wear a mask.

- Some pupils have shared that they are having 'play dates' and 'sleep overs' in each other's houses. We really hope that this is not the case as this would contravene the guidance published by the Welsh Government and could have a detrimental effect on the health and well-being of our school community. Our efforts in maintaining effective contact groups within school will be jeopardized if children from different households who are not in an extended household, are meeting in each other's homes.

- We'd like to thank those who have adhered to the drop-off and collection times to keep numbers on site as low as possible.

- Parents/guardians should not park in the car park adjacent to the shops. There are very few spaces to accommodate all those who insist on trying to park there. This again leads to congestion and puts the safety of those who are walking with their children at risk. Parents/guardians should allow themselves a little more time, park a little further away and walk to drop off and collect their child/ren at the allocated time.

- Please maintain a distance of **at least 2m** from other families at all times and take notice of the arrows which indicate which way you should enter and exit the main yard when collecting your child and always follow the one-way system.


- These are the most recent guidelines published by the Welsh Government that we must all follow to minimise the risk of transmission and to keep everyone safe:

  - Stay out of each other's homes, except in very limited circumstances
  - Limit the times you leave your home, and the distance you travel
  - When you do leave home, please try and be restrained in how many different people you see. It is better to see the same one or two people regularly than to see lots of different people occasionally
  - maintain social distancing, including outdoors
  - meet people outdoors rather than indoors where possible, even in circumstances where the law allows you to meet indoors
  - Work from home if you can
  - Wash your hands regularly and follow other advice on hygiene
  - Self-isolate if you show symptoms of coronavirus

Thank you for your cooperation.

*Yours sincerely*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân*


School Drop off/Pick up
High Risk
Low Risk
Congregating in groups outside school gates
RISK HOT SPOT
Staying to talk to others
Entering school without an appointment
Leaving as soon as you drop off/ pick up children
RISK SAFE SPOT
Wearing a mask
Following guidance issued by school
DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE
Together we'll keep Wales safe
gov.wales/coronavirus